# Y Cawr Mawr Bychan

## Gair o goffad, yn yr angladd gan Robin Williams

Y mae llawer man dinod wedi ei anfarwoli am i gawr ddigwydd byw yno. Llanddowror – Gruffydd Jones; Rhoslan – Robert Jones; Llanystumdwy – Lloyd George; Brynsiencyn – John Williams, ac, mewn byd arall Tonypandy– Tommy Farr. Yn yr un modd aeth enw ambell fferm yn enwog am i'r trigiannydd fod yn arbennig. Nid oes ond un enw i'w gyplu â fferm Pantycelyn, ac â'r Betws Fawr a Thai'r Felin. Drwy'r drugaredd erys rhai o hyd sy'n derbyn enwogrwydd i lan a thref ac ardal. Dyna Ryd-ddu, Glynceiriog, Llangadog, Abergwaun… A heddiw dyma weld enw Croesor yn ddiogel ar gof a chadw.

Cwestiwn pobol y De ydyw: 'Ple mae Croesor, gwedwch?' Cwestiwn pobol Croesor heddiw ydyw, 'Ple mae Bob Owen, dudwch?' Peth cyffredin oedd gweld Bob Owen yn mynd o Groesor, ond peth dirdynnol yw gweld Bob Owen heb ddychwelyd.

Y mae Croesor heb Bob Owen fel gorsedd heb ei brenin.

### Y Brenin

Byddai'r brenin yn mynd i'w daith o dan bwn o ddogfennau a llawysgrifau, a dod allan yng ngenau'r Cwm draw, ac yno'i ollwng ei hun ar y genedl. Ar adegau, byddai'n croesi'n drystfawr i ochor arall Clawdd Offa a thraethu'n acennog ym Mhrifysgolion y Saeson, ac unwaith aeth cyn belled a phlas y Fam Frenhines Elisabeth ac atebodd honno, fel nas atebwyd cynt na chwedyn – 'Yes, my mother!'

Fe redodd y sôn amdano yn wir i bellafoedd daear, a bu galw am ei wybodaeth achyddol o lawer cyfandir – yn arbennig America; ac fe ddarllenodd sawl alltud ac estron ei lawysgrifen artistig a dysgu cyfrinachau a fu ynghlâdd am ddwy oes a thair.

Ond o bob crwydro, fe ddôi'r athrylith yn ôl i Groesor. A hyfryd fyddai gweld y byrgorff gwydn yn nesau ar gamau lled afrwydd nodweddiadol, a chyrraedd ei noddfa ar Ael y Bryn. Ac yn ei gwmni digymar yn ei 'stafell, neu ar bafing y stryd neu ar faes eisteddfod, roedd yn rhaid bod yn barod i dderbyn Bob Owen yn ei amrywiol a'i ddiddorol dymherau.

### Dwy Ochr

Ar un funud gwelech ei lygaid o dan fargodion o aeliau, fel dwy ffenestr yn dal mellt, a'r llais yn gollwng taranfollt a honno'n trybedian mewn huotledd, nes bod pawb yn syfrdan syn. Yna, wrth i wedd ddoniolach ddod i'r sgwrs fe chwalai'r cwmwl digllon ac fe welech yr wyneb anwyla' 'rioed yn llonni drwyddo, a'r llygaid bach yn dawnsio fel perlau mewn haul a'i chwerthin uchel yn byrlymu.

Wedyn cywair arall drachefn, o glywed am ddioddef neu farwolaeth cydnabod – a dyna ddwyster yn llen arno, a phob rhyw air yn mygu ynddo. Profiad felly oedd rhedeg record o Syr Thomas Parry-Williams yn darllen rhai o'i weithiau, a Bob, o wrando a phorthi'r llais anwel, yn colli pob huotledd ond eiddo'i ddagrau pur.

Yr oedd popeth ynddo yn angerddol. Yn angerddol annwyl, ac angerddol wyllt; yn angerddol yn lloffa a llefaru; gwrando'n angerddol a gwastrodi'n angerddol. Ac o ganlyniad, nid oedd neisrwydd claear y gymdeithas set yn cyffwrdd dim arno.



*A daeth i ben deithio byd – Angladd Bob Owen, golygfa na fu ei thebyg erioed yng Nghroesor.*

Gwladwr ydoedd mewn gwisg a gwedd ac ymddygiad, ac nid oedd manionach steil ac eticet ond mân lwch y cloriannau iddo. Yr oedd y bywyd yn fwy na'r bwyd a'r corff yn fwy na'r dillad.

### Y Delwau

Wedi meudwyo yn ei gell oludog, fe âi allan ar dramp i ddosbarth neu lwyfan at feicroffon neu gamera, a chynnig i'w genedl yr hyn a chwilotodd ac a ddarganfu, yr hyn a garai a'r hyn a gasâi. Ymgolli yng nghwmni llyfrau a phobol a'u doniau oedd ei wynfyd; chwilota hanes yr enwog a'r dinod a rhyfeddu at eu camp a'u rhemp. Dryllio'r delwau yn ysgyrion ar brydiau – gan deg hawlio'r cytbwysedd iddo fod wedi codi delwau yn ogystal.

Cofiaf iddo aros efo ni (pan oeddem yn Ninmael) ac yntau wedi bod yn darlithio i gymdeithas Glanrafon, a hithau'n noson frathog o Chwefror. Cyrhaeddodd y tŷ, wedi cael hwyl fawr ond bod y barrug wedi cydio yn ei gymalau tynion. Eisteddodd o flaen tanllwyth i ddadmer, ac yna dyna floedd dros y tŷ, 'Tyn 'sgidia fi, Robin!' Amheuaf a glywais erioed orchymyn mwy bendigedig oddi wrtho. A'm braint yn wir ydoedd cael datod carai esgidiau Bob Owen.

Y waedd i gyfeiriad fy ngwraig yr un noson ydoedd iddi beidio a gwneud swper ar y bwrdd, 'Dim ond glasiad o laeth enwyn a bechdan'.

Wedyn bwrw iddi, trwy gymylau o Wdbein, hyd oriau'r bore; a'r hen Labrador sy' gennym, wedi rhoi ei ben ar gluniau Bob Owen a syllu'n edmygus a maith ar yr ymwelydd eithriadol hwn. Yna Bob Owen yn edrych i lygaid y ci a dechrau ei gyfarch: 'Gŵr bonheddig wyt ti. Wannwl! Gŵr bonheddig wyt ti. GŴR BONHEDDIG…' Minnau'n gweld clensio gwireb yr hen Ladin ŵr: 'Cas fi, cas fy nghi.'

### Yn y Capel

I achos crefydd yng Nghroesor bu'n flaenor ac yn golofn. Yn ddistaw sibrydodd wrthyf, 'Dew! mi fyddai'n rhegi weithia' – fel 'tai neb yn gwybod. Ond colofn ydoedd Bob Owen. Eithr nid colofn addurniedig, fel plastr a dynnwyd allan o fowld. Ond colofn oedd yn codi allan o graig noeth amrwd, a'r golofn honno'n dal yr adeilad i ni yng Nghroesor.

Ac O! am wrandawr deallus a chynorthwygar i bregethwr, a'r pen bywus yn nodio'i ategiad yn ffyrnig. A'i denor ysgafn – fe'i clywaf yn awr yn tenori a melysu 'O Iesu mawr y meddyg gwell,' ar dôn Eden.

Bellach bydd rhaid trio dygymod. Bydd yn chwithdod enbyd i Gymru fach, i'r ardal, i'r capel, i ysgolheictod, i'w gyfeillion lluosog a ffyddlon. Ond nid yn unman y bydd y chwithdod yn fwy nag i Mrs Owen – Nel.

Mi waeddai 'Nel!' lawer mil o weithiau, ac fe atebodd Nel bob galw yn ddifeth, yn deyrngar amyneddgar. Os trefnodd Rhagluniaeth un peth, fe drefnodd bod yr unig un a grëwyd felly i fod yn gymar a chysur iddo. Y mae'r genedl fwy yn nyled Mrs Bob Owen nag y tybia neb. Bydd yn chwithdod i'r plant y meddyliai gymaint ohonynt – Nanw ac Owain Tudur a Siân. Ac i'r wyrion a'r wyresau bach a gâdd ddechrau bywyd o tan gerydd ac o tan gariad Bob Owen.

### Bargen

Yr oeddwn yn ffarwelio ag ef am hanner dydd y Llun diwethaf yn Ysbyty Bangor ac yn setlo bargen oedd rhyngom. Fy mod i fynd ac ef yn y car ganol y Gwanwyn i weld 'Doc Tom' a Syr Ifor. A dyna'r frawddeg olaf, 'Ma nhw'n disgwl, cofia di.'

Cyn pen chwe awr, daeth yn glir fod Un arall 'yn disgwyl' ac aeth Ef rhyngom ni â'n bargen. Ond ni chwynaf, dim ond diolch i'r Anfeidrol Grëwr am gael benthyg yr athrylith, a gwybod heddiw fod diogelach llaw na f'un i ar y Llyw i fynd a Bob Owen ar ei siwrnai i'r Gwanwyn.

*Codwyd o'r Cymro Mai 10 1962.*